**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Mai 2019

Annwyl Nick

## Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18

Ysgrifennaf mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o gynnwys gwybodaeth hygyrch a thryloyw yn ein dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Hefyd, hoffwn achub ar y cyfle hwn i sicrhau'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol, yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Cynulliad.

Rhoddir sylw llawn i argymhellion eich Pwyllgor ynghylch y Comisiwn (Argymhellion 2-10) yn yr atodiad. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater yn yr atodiad, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Comisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

# Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau amgen ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Gallai'r rhain adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu.**

**Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol Newydd**

Roedd y Comisiwn wedi trafod a chytuno ar gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad corfforaethol, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2019.

Mae'r dangosyddion perfformiad newydd yn parhau i gyd-fynd â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, ond maent yn mabwysiadu dull gweithredu diwygiedig gyda mwy o ffocws ar y canlynol:

a. Cyfres o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol;
b. Cyfres o fesurau sy'n darparu hyblygrwydd i ddatblygu perfformiad lle y mae angen gwella neu risg o orffwys ar ein bri.

Croesawodd y Comisiynwyr yn arbennig ddatblygu'r dangosyddion hyblygrwydd, a fydd yn ymdrin â gwaith caffael gyda chyflenwyr o Gymru, absenoldeb oherwydd salwch, gwaith ymgysylltu, cynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu'r Comisiwn, helpu'r Aelodau i weithio yn eu dewis iaith a lleihau teithiau mewn ceir sy'n ymwneud â busnes.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylid adrodd ar y ddwy gyfres o ddangosyddion yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn hytrach nag mewn adroddiad perfformiad ar wahân.

**Sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu**

Mae'r Gyllideb ar gyfer 2019-20 eisoes yn cynnwys llinellau ar wahân ar gyfer cyllideb weithredol y Comisiwn a chyllideb ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Yn hanesyddol, mae'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi cyflawni tanwariant y mae'r Comisiwn wedi'i ddefnyddio i gyllido prosiectau penodol. Er mwyn ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor Cyllid a chynyddu tryloywder, mae cyllideb 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- ni chaiff tanwariant yn erbyn llinell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn 2019-20 ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru a bydd ar gael i'w gario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- mae llinell ariannu prosiect newydd wedi'i chynnwys, yn ogystal â chyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hyn yn disodli'r gronfa fuddsoddi flaenorol a ariannwyd o danwariant o ran penderfyniadau a gweithredu.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn gosod targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer arbedion cost neu effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu ystod lawn ei weithgareddau yn hytrach nag ymwneud â'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn yn unig. Dylid llunio adroddiad ar berfformiad ar sail y targed bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad.**

Strategaeth y Comisiwn o hyd, wrth osod ei gyllideb flynyddol, yw cynnig cyllideb sydd yr isafswm sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei ofynion statudol a'i nodau. Mae'r newidiadau diweddar y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud i wella tryloywder, drwy nodi buddsoddiadau prosiect angenrheidiol a thrwy wahanu'r gyllideb weithredol oddi wrth gyllideb y penderfyniad, yn atgyfnerthu'r strategaeth hon, sef dim ond gofyn am yr isafswm adnoddau sy'n ofynnol. Byddwn yn parhau i weithio i ysgogi effeithlonrwydd drwy ein gweithgarwch caffael pan gaiff contractau eu hadnewyddu a phan gaiff rhai newydd eu gosod, gan ein bod o'r farn bod hyn yn arwydd o lywodraethiant da. Fodd bynnag, o ystyried y strategaeth hon, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac, mewn gwirionedd, yn effeithlon gosod targed mympwyol ar gyfer arbedion cost blynyddol ac, yn wir, rydym yn teimlo y gallai hyn arwain at gymhelliad gwrthnysig i gynyddu'r gyllideb flynyddol dim ond i gyflawni arbediad diwedd blwyddyn a chyrraedd y targed.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu i'r Pwyllgor, pan fo rhagor o fanylion yn hysbys, y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys sut y cafodd ei lywio gan ei Adolygiad Capasiti.**

Yn wahanol i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cynnig cyfleoedd ymadael gwirfoddol yn rheolaidd. Y tro diwethaf i gynllun o'r fath fod ar gael oedd yn ystod 2015/16. Roedd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol presennol yn agored i geisiadau rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019. Nodau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a ddeilliodd yn uniongyrchol o'r adolygiad capasiti, oedd:

- Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn ei ofynion sgiliau;

- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- Hwyluso newid sefydliadol;
- Cyflawni arbedion tymor hir lle y bo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fodloni prinder sgiliau.

At ei gilydd, cafwyd 43 o geisiadau ac ystyriwyd y rhain yn erbyn meini prawf y cynllun gan Banel a oedd yn cynnwys Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn ac roedd aelod o Ochr yr Undebau Llafur a'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn arsylwi. Roedd asesiad y Panel o bob cais yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael drwy'r cais, wedi'i gefnogi a'i sgorio gan y rheolwr llinell perthnasol ac yn ddarostyngedig i waith cymedroli gan banel cymedroli annibynnol. Derbyniwyd 22 o geisiadau. Ystyriwyd 4 cais arall ar apêl a chawsant eu cymeradwyo ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol nas rhoddwyd yn y cais. Wedi hynny, gwrthododd dau ymgeisydd gynnig y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, felly bydd 24 o staff yn ymadael erbyn mis Medi 2019.

Yn dilyn hynny, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £800,000 yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i £950,000 ac yna ei chynyddu ymhellach i £1.016 miliwn. Ar ôl cwblhau'r broses apelio ac i ymdrin â nodau’r cynllun, roedd y gost derfynol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, ac roedd o fewn cyllideb gymeradwy Swyddfa'r Cabinet o £1.5 miliwn.

Rydym yn hyderus y dilynodd y broses yr arfer gorau ac yr ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol blaenorol yn 2015-16. Gwnaethom sicrhau y darparwyd sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar gyfer pob cam o'r Cynllun. Credwn fod y Cynllun wedi bod yn effeithiol ac wedi cyflawni'r nodau, yn ogystal â chynnig cyfle arwyddocaol i wneud newidiadau sefydliadol gwerthfawr i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Argymhelliad 5**. **Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â’i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch.**

Mae dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn cael ei fonitro gan y tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol i'w drafod â Phenaethiaid Gwasanaeth mewn cyfarfodydd misol, ac adroddir arno yn y Tîm Arwain bob chwarter. Yn flynyddol, neilltuir cyfarfod tîm arwain i drafod absenoldeb, yr achosion, patrymau, meincnodi a chamau adfer i helpu i wella llesiant.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyflwyno adroddiad ar ddadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ôl rheswm yn ein cyfrifon blynyddol, ond byddwn yn adolygu hyn wrth lunio Adroddiad Blynyddol 2018-19.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae cyfraddau trosiant staff wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf rhwng 2015-16 a 2018-19.**

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos cyfradd y trosiant staff rhwng 2015-16 a 2018-19:

| Blwyddyn | Nifer y staff ar gyfartaledd | Staff a adawodd | Trosiant |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 415.95 | 34 | 8.17% |
| 2016-17 | 428.96 | 38 | 8.86% |
| 2017-18 | 451.21 | 34 | 7.54% |
| 2018-19 | 442.55 | 43 | 9.72% |

Mae ein cyfradd flynyddol o drosiant staff wedi bod yn weddol gyson dros y cyfnod hwn. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o drosiant yn iach ar gyfer amrywiaeth sefydliadol a chyfleoedd newydd i ddatblygu gyrfa. Mae trosiant blynyddol wedi rhoi cyfleoedd i ni newid y cymysgedd sgiliau mewn gwasanaethau ac ailddyrannu rhai swyddi i feysydd lle mae'r blaenoriaethau sefydliadol yn uwch, yn enwedig Brexit. At ddibenion cymharu, trosiant cyfartalog y Sector Cyhoeddus yw 15.7 y cant[1].

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'w system rheoli perfformiad, ynghyd ag asesiad o'u heffeithiolrwydd wrth gryfhau'r trefniadau.**

Yn 2016, gwnaethom gyflwyno dull seiliedig ar gymhwysedd o ran gosod a monitro amcanion er mwyn asesu perfformiad yn seiliedig ar beth a oedd wedi'i gyflawni a hefyd sut y gwnaed hyn. Arweiniodd hyn at wella'r gyfradd cwblhau PMDR ac ansawdd yr amcanion a osodwyd.

[1] Labour turnover rates survey 2018

Ym mis Medi 2018 gwnaethom ddiwygio'r broses er mwyn darparu dull gweithredu symlach o ran cofnodi trafodaethau, gan alluogi rheolwyr llinell a staff i ganolbwyntio'n well ar y cynnwys. Cafodd y newid hwn adborth cadarnhaol hefyd, gydag 80 y cant o staff yn dweud bod ganddynt amcanion gwaith clir a'u bod yn cael adborth rheolaidd ar eu perfformiad, a bod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg.

Gwnaethom gynnal archwiliad mewnol o'r broses rheoli perfformiad ym mis Rhagfyr 2018 ac rydym newydd gwblhau adolygiad o anghenion y dyfodol a hwyluswyd yn allanol sydd wedi rhoi argymhellion ar gyfer gwella ein prosesau rheoli perfformiad a datblygiad ymhellach.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd.**

Rydym yn ymrwymedig i wella ein hymgysylltiad â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, drwy ein gwaith allgymorth a thrwy barhau i nodi pob cyfle i gynyddu cynrychiolaeth yng ngweithlu'r Comisiwn. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgysylltu â Busnes yn y Gymuned i weithio gyda ni ac mae'r Comisiwn wedi cytuno ar ddangosydd hyblygrwydd newydd ar gyfer cynrychiolaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu.

Fel rhan o'n Hadroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol, rydym yn cyhoeddi manylion cyflogau staff yn ôl hil/ethnigrwydd. Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn cyhoeddi asesiad o unrhyw fwlch cyflog ethnigrwydd gan ein bod yn aros am ganlyniad ymgynghoriad diweddar Llywodraeth y DU ar yr hyn y bydd yn ei wneud i adrodd ar fylchau cyflog ethnigrwydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2019 ac nid yw'r amserlenni ar gyfer adrodd ar ei ganfyddiadau'n hysbys ar hyn o bryd. Pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn ar gael, byddwn yn trafod ei addasrwydd ar gyfer adrodd arno yn ein hadroddiad blynyddol.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn mesurau cynaliadwyedd eraill, gan gynnwys mannau gwefru, i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan ac atgyfnerthu ei rinweddau amgylcheddol.**

Ar hyn o bryd, mae gennym gapasiti i wefru hyd at bedwar cerbyd trydan ar unrhyw adeg. Mae dau fan gwefru trydan ychwanegol ger y man parcio car at ddefnydd pawb i wefru'r cerbyd hwn ac i ddarparu capasiti ychwanegol.

Rydym yn codi tâl ar staff am y trydan a ddefnyddir i wefru eu cerbyd, ond rydym yn gwneud hynny ar bris y gost er mwyn sicrhau bod manteision ariannol defnyddio ceir trydan yn parhau i fod mor ddeniadol â phosibl.

Caiff y defnydd o'r holl fannau parcio ei fonitro'n ddyddiol, ac rydym mewn cysylltiad rheolaidd â defnyddwyr y cerbydau trydan i sicrhau bod y mannau gwefru'n gweithio'n effeithlon. Rydym hefyd yn mynd ati i geisio barn am ddarpariaeth mannau parcio, a pherchnogaeth staff ar gerbydau trydan fel rhan o'n harolwg teithio.

Os bydd y galw am fannau gwefru'n cynyddu'n ddigonol dros amser, bydd y Cynulliad yn gallu cynyddu darpariaeth y cyfleuster hwn er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi newid i gerbyd trydan.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'n ehangach unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o'i hymdrechion ei hun i gynyddu ei sylfaen cyflenwyr o Gymru.**

Mae hyn yn mynd rhagddo ac mae'r Pennaeth Caffael wedi cael trafodaethau â staff Llywodraeth Cymru a bwriedir cynnal rhagor o drafodaethau. Rydym yn gweithio gydag Atamis (mae Atamis yn llunio adroddiadau perfformiad blynyddol ar gaffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru) i weld a allwn helpu i fireinio ei alluoedd adrodd ynghylch gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Yn olaf, rydym mewn cysylltiad â Siambr Fasnach De Cymru i gael gwybod beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi cyflenwyr o Gymru i ennill busnes gennym.